CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2277 (Cy. 167)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Yn ddarostynedig i'r eithriad isod, mae adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sir a phob cyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ("awdurdod lleol") lunio cynigion ar gyfer rhoi trefniadau gweithrediaeth, fel y'u diffinnir gan adran 10(1) o'r Ddeddf, ar waith.

Yr eithriad yw pan fo adran 31 o'r Ddeddf yn gymwys i'r awdurdod lleol a'i bod yn penderfynu llunio cynigion ar gyfer rhoi trefniadau eraill ar waith o dan adran 31(4)(a) o'r Ddeddf.

Wrth lunio cynigion o dan adran 25 o'r Ddeddf, rhaid i awdurdod lleol benderfynu pa ffurf y bydd eu gweithrediaeth yn ei chymryd. Rhaid i'r cynigion gynnwys unrhyw fanylion am y trefniadau gweithrediaeth y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu cyfarwyddo, amserlen mewn perthynas â rhoi eu cynigion ar waith a manylion unrhyw drefniadau trosiannol sy'n angenrheidiol ar gyfer rhoi'r cynigion ar waith.

Rhaid i gopi o'r cynigion gael ei anfon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghyd â datganiad yn disgrifio'r camau y mae'r awdurdod lleol wedi'u cymryd i ymgynghori ag etholwyr llywodraeth leol eu hardal a phersonau eraill sydd â buddiant ynddi. Hefyd, rhaid i'r datganiad ddisgrifio canlyniad yr ymgynghori ac i ba raddau yr adlewyrchir y canlyniad hwnnw yn y cynigion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â gofynion adran 25 o'r Ddeddf. Y dyddiad hwnnw yw'r 31 Ionawr 2002.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2277 (W. 167)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Proposals for Executive Arrangements) (Wales) Order 2001

EXPLANATORY NOTE

(This note does not form part of the Order)

Subject to the exception below, every county and county borough council in Wales ("local authority") is required by section 25 of the Local Government Act 2000 ("the Act") to draw up proposals for the operation of executive arrangements as defined by section 10(1) of the Act.

The exception is where section 31 of the Act applies to the local authority and it decides to draw up proposals for the operation of alternative arrangements under section 31(4)(a) of the Act.

In drawing up proposals under section 25 of the Act, a local authority must decide what form their executive is to take. Their proposals must include such details of the executive arrangements as the National Assembly for Wales may direct, a timetable with respect to the implementation of their proposals and details of any transitional arrangements which are necessary for the implementation of the proposals.

A copy of the proposals must be sent to the National Assembly for Wales and be accompanied by a statement describing the steps taken by the local authority to consult the local government electors for, and other interested persons in, their area. The statement must also describe the outcome of the consultation and the extent to which that outcome is reflected in the proposals.

This Order specifies the date by which a local authority must comply with the requirements of section 25 of the Act. That date is 31 January 2002.

2001 Rhif 2277 (Cy. 167)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001

Wedi'i wneud	*21 Mehefin 2001*
Yn dod i rym	*28 Gorffennaf 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 25(8), 105(1) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001 a daw i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru yn unig.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ac eithrio cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol y mae adran 31 o'r Ddeddf yn gymwys iddo ac sydd wedi penderfynu llunio cynigion ar gyfer trefniadau eraill o dan adran 31(4)(a) o'r Ddeddf; ac

ystyr "y Ddeddf" (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(a) 2000 p.22.

2001 No. 2277 (W. 167)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Proposals for Executive Arrangements) (Wales) Order 2001

Made	*21st June 2001*
Coming into force	*28 July 2001*

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred upon it by sections 25(8), 105(1) and 106(1) and (2) of the Local Government Act 2000(**a**):

Citation, commencement and application

1.-(1) This Order may be cited as the Local Authorities (Proposals for Executive Arrangements) (Wales) Order 2001 and shall come into force on 28th July 2001.

(2) This Order applies to Wales only.

Interpretation

2. In this Order -

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Local Government Act 2000; and

"local authority" (*"awdurdod lleol"*) means every county or county borough council in Wales except a county or county borough council to which section 31 of the Act applies and which has decided to draw up proposals for alternative arrangements under section 31(4)(a) of the Act.

(a) 2000 c.22.

Erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol gydymffurfio ag adran 25 o'r Ddeddf

3. Rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio ag adran 25 o'r Ddeddf erbyn 31 Ionawr 2002.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

21 Mehefin 2001

D. Elis-Thomas

Llywydd y CynulliadCenedlaethol

Date by which local authorities must comply with section 25 of the Act.

3. A local authority must comply with section 25 of the Act by 31 January 2002.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

21st June 2001

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2001 Rhif 2277 (Cy. 167)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Gweithrediaeth) (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2001 No. 2277 (W. 167)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Local Authorities (Proposals for Executive Arrangements) (Wales) Order 2001

©℗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090281-5

9 780110 902814

£1.75

W/318/07/01 ON